Taflen Amcan 1 ar y cyd rhwng WEFO a'r Western Mail
(60 tudalen, dwyieithog)

Crynodeb

- Tu mewn i'r clawr blaen = hysbyseb WEFO

- Rhagair – Rhodri Morgan/Mike German/Christine Chapman

- Tudalen Gynnwys

- Prif gorff y testun *(24 tudalen)*
  - Gwybodaeth gyffredinol
  - Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y Sector Preifat
  - Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y Sector Gwirfoddol

- Diffiniadau

- Aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen

- Cysylltiadau
  - Partneriaethau Rhanbarthol
  - Partneriaethau Lleol

- Map *(tudalennau canol)* a Chysylltiadau ar gyfer pob sector

Rhagair

Rhodri Morgan, Prif Weinidog
Mae Amcan 1 yn gyfle digynsail, ac yn ôl pob tebyg ni fydd ail gyfle i Gymru. Mae ei bosibiliadau'n fawr ond nid yw'r cyllid yn ddi-ben-draw. Rydym eisoes yn cydweithio er mwyn cael y budd mwyaf posib o'r rhaglen ac yn dechrau gwireddu ei amcanion – Cymru ag economi o ansawdd uchel wedi ei yrru gan wybodaeth, gyda gweithlu medrus a chymwysadwy, a gyda chymunedau llewyrchus â safon byw da.

Mike German, Gweinidog ar gyfer Datblygu Economaidd
Er mwyn gwneud llwyddiant parhaus o Amcan Un bydd angen partneriaeth gryf rhwng pawb –y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Gobeithiaf y bydd yn ganllaw ddefnyddiol hwn yn gymorth i wireddu y prosiectau uchelgeisiol sydd angen i helpu trawsffurfio ein heconomi a chreu Cymru mwy adlewyrchus ac iachus i'r dyfodol.

Christine Chapman, Cadeirydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen
Mae Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1 wedi gweld gwaith da wedi ei gyflawni hyd yn hyn. Rydym ni i gyd eisiau gwneud i'r Cronfeydd Strwythurol hyn weithio dros Gymru. Mae angen ystod eang o syniadau arnom i wneud i hyn ddigwydd. Dim ond trwy annog cyfranogion o'r cefndiroedd ehangaf y gall prosiectau blaengar a chyffrous cael eu datblygu. Gobeithiaf yr achubwch ar y cyfle i gynnig eich syniadau.

CYNNWYS

Gwybodaeth Gyffredinol

Gwybodaeth Ychwanegol i'r Sector Preifat

Gwybodaeth Ychwanegol i'r Sector Gwirfoddol

Diffiniadau o'r Cronfeydd

Aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen

Partneriaethau Rhanbarthol

Partneriaethau Lleol

Tudalennau Canol:
Map o Ardal Rhaglen Amcan 1 a Chysylltiadau

Cydnabyddiaeth
Hoffai WEFO ddiolch i'w cydweithwyr yn y sefydliad, y prosiectau sydd wedi eu harddangos ac Eluned Morgan ASE am eu help wrth ddarparu'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

Main body text

GWYBODAETH GYFFREDINOL

Beth yw Amcan 1?

Nod Rhaglen Amcan 1 yw cynyddu twf a ffyniant economïau sydd ar hyn o bryd yn llusgo ar ôl cyfartaledd Ewrop yn nhermau Cynnyrch Domestig Gros (GDP) y pen. Mae ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (gweler y Map) yn gymwys i dderbyn cyllid Amcan 1 y GE gan fod eu GDP yn llai na 75 y cant o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd (UE). Y nod yw lleihau'r gwahaniaeth hwn drwy hybu twf mewn GDP y pen, twf mewn cyflogaeth a chynnydd mewn gweithgaredd economaidd.

Caiff y rhaglen Amcan 1 ei gyrru gan weledigaeth glir mewn perthynas â datblygu Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn y dyfodol i fod yn rhanbarth Ewropeaidd sy'n llawn gweledigaeth, yn ddeinamig ac yn hyderus.

Wrth wraidd y weledigaeth mae'r angen i osod datblygiad pobl Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gyntaf. Mae datblygu'r sgiliau a'r agweddau a fydd yn caniatáu i'r rhanbarth gystadlu fel economi modern sy'n symud yn ei flaen ac i ddatblygu ysbryd mentergar ym mhob sector o'r economi a chymdeithas yn hanfodol er mwyn goresgyn y ddwy her, sef amddifadedd a bod yn ymylol, sy'n nodweddiadol o lawer o'r rhanbarth. Rhaid i'r rhaglenni wneud hyn mewn modd sy'n sensitif i amgylchedd ac i wead cymdeithasol y rhanbarth.

Beth fydd hyd y Rhaglen?

Mae'r Rhaglen yn cychwyn yn 2000 ac yn dod i ben yn 2006. Rhaid i brosiectau dderbyn cymeradwyaeth cyn diwedd 2006. Gall taliadau ar brosiectau barhau tan ddiwedd 2008.

Faint o arian fydd ar gael?

Cytunir ar y Rhaglen mewn Euros. Bydd y Rhaglen gyfan yn costio €3942 miliwn (ychydig dros £2.4 biliwn). Bydd €1853 miliwn ohoni (rhyw £1.2 miliwn) yn cael ei chyllido gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, €1395 miliwn (tua £860 miliwn) o ffynonellau cyhoeddus y DU a €694 miliwn (rhyw £430 miliwn) o ffynonellau preifat (sy'n cynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol).

Partneriaethau a Phwyllgor Monitro'r Rhaglen

Mae Amcan 1 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael ei weinyddu fel partneriaeth. Mae pob sector o'r gymuned – preifat, cyhoeddus a gwirfoddol – yn cael cynrychiolaeth gyfartal ar bob un o'r grwpiau lleol a rhanbarthol sy'n gweinyddu'r rhaglen.

Y bartneriaeth allweddol yw Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, sy'n gwneud y penderfyniadau allweddol ynghylch strategaeth a chyfeiriad Amcan 1. Dan gadeiryddiaeth Christine Chapman, AC Cwm Cynon, mae'r Pwyllgor yn cyfarfod rhyw unwaith bob chwarter i ystyried y prif bynciau sy'n effeithio ar y rhaglen, yn cynnwys y meini prawf a ddefnyddir i asesu prosiectau unigol.

Yn bennaf oll, bwriad Amcan 1 yw bod yn rhaglen a yrrir yn lleol, sy'n adlewyrchu anghenion cymunedau'r rhanbarth. Mae Partneriaethau Lleol ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn dilyn ffiniau'r awdurdodau lleol, sy'n adlewyrchu buddiannau'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ym mhob ardal. Mae'r Partneriaethau Lleol hyn wedi llunio strategaethau, yn gosod eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer defnyddio arian Amcan 1 yn eu hardaloedd.

Sut mae Amcan 1 yn cael ei weithredu?

Mae Amcan 1 yn cael ei weithredu drwy gyfrwng **Partneriaethau** a strategaethau. Mae'r partneriaethau hyn yn gweithredu ar dair lefel: lleol, rhanbarthol a strategol. Bydd gan bob partneriaeth fframwaith strategol gytûn ar gyfer ei maes cyfrifoldeb. Mae ganddi hefyd *gorff atebol* sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer y bartneriaeth. Rhoddir pwyntiau cyswllt ar dudalen 31.

Mae **15 partneriaeth leol**, pob un ohonynt yn cynnwys un ardal awdurdod lleol.

Mae **10 partneriaeth ranbarthol,** pob un yn gyfrifol am thema (cefnogaeth busnes, rhwydwaith mewnol, adnoddau dynol, arloesedd ac ymchwil a datblygiad, mentergarwch, economi seiliedig ar wybodaeth a TGCh, cefn gwlad a choedwigaeth, datblygiad cefn gwlad, twristiaeth, adfywio economi cymunedol).

Prif swyddogaeth y **partneriaethau lleol a rhanbarthol** yw cyfrannu at asesiad ansoddol o'r prosiectau a chynorthwyo gwerthusiad WEFO.

Mae **pedwar partneriaeth strategol,** sy'n arolygu gweithgaredd gwahanol rannau'r Rhaglen, yn benodol asedau busnes; asedau dynol; asedau gwledig; ac asedau cymunedol.

Prif swyddogaeth y partneriaethau strategol yw cyfrannu asesiad ansoddol o'r prosiectau i helpu cynorthwyo gwerthusiad WEFO.

Beth yw blaenoriaethau'r Rhaglen?*(double page spread)*

Rhennir y Rhaglen yn saith Blaenoriaeth. Rhennir pob Blaenoriaeth ymhellach yn Fesurau. Y ffigurau mewn cromfachau yw faint o arian

Ewropeaidd sydd ar gael ar gyfer pob Blaenoriaeth. (Noder nad yw'r rhifo yn awgrymu eu pwysigrwydd mewn perthynas â'i gilydd.)

Blaenoriaeth 1: Ehangu a Datblygu'r sylfaen SME (£285m)
Cynhyrchu cyfoeth a chyflogaeth ar gyfer y rhanbarth drwy gefnogi twf sector y mentrau bychan a chanolig eu maint (SME).

Mesurau:

- 1.1 Cefnogaeth ariannol ar gyfer SMEau
- 1.2 Hybu mentergarwch a chynyddu graddfa creu SMEau
- 1.3 Datblygu SMEau cystadleuol
- 1.4 Hybu cymhwysedd a mentergarwch
- 1.5 Darparu safleoedd ac adeiladau ar gyfer SMEau.

Blaenoriaeth 2: Datblygu Arloesedd a'r Economi sy'n seiliedig ar Wybodaeth (£183m)
Gwneud y rhanbarth yn fwy cystadleuol drwy gaffael a defnyddio gwybodaeth o'r technolegau newydd.

Mesurau:

- 2.1 Rhwydwaith mewnol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
- 2.2 Symbylu a chefnogi'r galw am TGCh
- 2.3 Cefnogaeth ar gyfer datblygu arloesedd ac ymchwil a datblygiad
- 2.4 Sgiliau ar gyfer arloesedd a thechnoleg
- 2.5 Datblygiadau yn y sector ynni glân

Blaenoriaeth 3:
Adfywio Economaidd Cymunedol (£110m)
Brwydro yn erbyn eithrio cymdeithasol drwy dargedu gweithredu lleol yn y gymuned yn y cymunedau mwyaf difreintiedig er mwyn cynyddu sgiliau a chyflogadwyaeth, darparu gwell mynediad at gyfleoedd mwy amrywiol a gwella cyfleusterau lleol ar gyfer busnesau.

Mesurau:

- 3.1 Gweithredu cymdeithasol dros gynhwysiad cymdeithasol
- 3.2 Partneriaeth ac adeiladu cynhwysedd yn y gymuned
- 3.3 Adfywio ardaloedd difreintiedig trwy gyfrwng gweithredu yn y gymuned
- 3.4 Cefnogaeth ar gyfer creu a datblygu busnesau yn yr economi cymdeithasol.

Blaenoriaeth 4: Datblygu Pobl (£289m)
Datblygu sgiliau a cyflogadwyaeth pobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal, yn enwedig y rhai sydd dan anfantais o unrhyw fath.

Mesurau:

- 4.1 Mesurau ataliol a gweithredol yn y farchnad waith
- 4.2 Cynhwysedd cymdeithasol
- 4.3 Dysgu gydol oes i bawb
- 4.4 Gwella'r system ddysgu

4.5 Gwella cyfranogiad menywod yn y farchnad waith
4.6 Rhagweledigiad a dadansoddiad o'r sgiliau sydd eu hangen

Blaenoriaeth 5: Datblygiad cefn gwlad a defnydd gynaliadwy o adnoddau naturiol (£131m)
Cyfuno amgylchedd iach wedi ei reoli'n dda gyda chynhyrchiant economaidd a hyfywedd.

Mesurau:
5.1 Prosesu a marchnata cynnyrch amaethyddol
5.2 Gwasanaethau hyfforddi i helpu amaeth i addasu ac i arall-gyfeirio
5.3 Coedwigaeth
5.4 Hybu ac addasu a datblygu ardaloedd cefn gwlad
5.5 Buddsoddi mewn daliadau amaethyddol
5.6 Hybu datblygu economaidd lleol
5.7 Cefn gwlad gynaliadwy: Gwella ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol a rheoli cefn gwlad
5.8 Cefnogi cyfleoedd hamdden a rheoli'r amgylchedd naturiol
5.9 Cefnogi pysgodfeydd a dyfryddiaeth

Blaenoriaeth 6: Buddsoddiad rhwydwaith mewnol strategol (£130m)
Sicrhau buddsoddiad a chyflogaeth ychwanegol ar gyfer yr ardaloedd llai datblygedig o fewn y rhanbarth drwy hybu buddsoddiad busnesau mewn ardaloedd gyda chefnogaeth gwelliannau allweddol i'r rhwydwaith mewnol.

Mesurau:
6.1 Hygyrchedd a chludiant
6.2 Rhwydwaith mewnol ynni
6.3 Safleoedd cyflogaeth strategol
6.4 Rhwydwaith mewnol amgylcheddol

Blaenoriaeth 7: Defnyddio Cymorth Technegol (£16m)
Sicrhau rheolaeth effeithlon ac eglur o'r Rhaglen.

Mesurau:
7.1 Hybu rheolaeth effeithlon o'r rhaglen
7.2 Hybu rheolaeth effeithlon o'r rhaglen
7.3 Codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ac Ymchwil
7.4 Codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ac Ymchwil

Beth yw'r Themâu Croestoriadol?

Dyma'r tair thema sy'n sail i'r rhaglen Amcan 1 yn ei chrynswth: maent wedi eu cynllunio i gael effaith ar bob Blaenoriaeth a Mesur, a dylai pob prosiect fynd i'r afael â'r materion hyn yn eu ceisiadau a'u gweithgareddau. Dyma ddiffiniadau o'r themâu a ddefnyddir yn Amcan 1:

- **Cynaladwyaeth Amgylcheddol**

Mae hwn yn gofyn am integreiddio cynyddol y materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol wrth weithredu datblygiad sy'n economaidd effeithlon, yn dderbyniol yn gymdeithasol ac yn ymatebol ac yn ddiogel mewn perthynas â'r amgylchedd. Mae hefyd yn disgwyl i ymyriadau sy'n digwydd yn y cymunedau ac yn yr economi gynnwys mecanweithiau sy'n caniatáu iddynt barhau ar ôl i gyfnod y rhaglen ddod i ben.

- **Cyfleoedd Cyfartal**

Mae hybu cyfleoedd cyfartal yn galw am gael gwared ar rwystrau strwythurol a rhwystrau agwedd sy'n cyfyngu ar allu'r unigolyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd economaidd gymdeithasol. Mae angen i'r ymagwedd hon fynd i'r afael â rhwystrau sy'n seiliedig ar ryw, tarddiad ethnig, anabledd, iaith a diwylliant. Bydd angen mesurau penodol i gael gwared ar rwystrau sy'n effeithio ar grwpiau penodol.

- **Cymdeithas Wybodaeth**

Mae datblygu economi a yrrir gan wybodaeth a gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir gan gymdeithas wybodaeth yn hanfodol i lwyddiant ffyniant y rhanbarth yn y dyfodol. Mae gan TGCh y potensial i gael gwared ar y costau a gysylltir yn draddodiadol gyda phellter, lleihau effeithiau bod yn ymylol ac agor y drws i gyfleoedd newydd pwysig ar gyfer datblygiad economaidd a chynhwysedd cymdeithasol. Gall hefyd chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu sgiliau a gwella hyblygrwydd a chyflogadwyaeth y gweithlu.

Beth fydd angen i mi ei arddangos yn fy mhrosiect?

Bydd angen i chi arddangos y canlynol:

- bod y prosiect yn helpu i gwrdd â'r targedau a osodwyd ar gyfer y rhanbarth Amcan 1 (sydd i'w gweld yn y Ddogfen Raglennu Sengl – ar gael ar wefan WEFO);
- bod y gweithgaredd yn cael ei gynnwys fel gweithgaredd cymwys yn Atodlen y Rhaglen (ar gael ar wefan WEFO neu (wedi ei argraffu) gan WEFO);
- bod galw ond nad oes neb yn cwrdd â'r galw hwnnw (h.y. methiant y farchnad);
- y gellir cyflawni'r deilliannau (h.y. bod cynhwysedd y farchnad i gynnal y gwasanaeth wedi ei arddangos);
- bod y prosiect yn cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol;
- na allai'r prosiect fynd yn ei flaen heb gefnogaeth;
- mai'r swm sy'n cael ei ofyn amdano fel grant yw'r lleiafswm angenrheidiol ar gyfer mynd ymlaen â'r prosiect;
- bod y prosiect yn hyfyw (h.y. ei fod wedi ei brisio a'i gyllido'n gywir a bod posibl ei gyflawni);
- bod y gweithgaredd yn gynaliadwy ar ôl diwedd y prosiect (hynny yw, y bydd yn parhau unwaith y daw'r cyllid o Ewrop i ben);
- y bydd systemau digonol ar waith i fonitro cynnydd ariannol y prosiect a'r cynnydd yn erbyn targedau'r prosiect;
- bod themâu cyffredin cyfleoedd cyfartal, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a chynaladwyaeth amgylcheddol wedi eu cyflawni.

Faint o gymorth fydd ar gael?

Mae graddfa gyfartalog o gymorth ar gyfer pob rhan o'r Rhaglen (a elwir weithiau yn raddfa ymyrraeth) ac ni ellir mynd yn uwch na'r raddfa hon. Caiff graddfa'r grant ei bennu ar wahân ar gyfer pob prosiect, ar sail y lleiafswm sydd ei angen.

Mae sefydliadau'r sector preifat hefyd yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ar gymorth gan y wladwriaeth yn unol â rheolau'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r term 'cymorth y wladwriaeth' yn disgrifio 'cymorth' sy'n cael ei roi i sefydliadau'r sector preifat gan y 'wladwriaeth' (yn cynnwys pob ffurf ar lywodraeth). Mae'r Comisiwn yn ceisio sicrhau bod cystadleuaeth deg rhwng cwmnïau o fewn yr UE. Oherwydd hyn, mae'n gosod cyfyngiadau ar faint o gymorth all ddod i gwmnïau o ffynonellau cyhoeddus.

Y newyddion da, fodd bynnag, yw bod y Comisiwn yn cydnabod fod cwmnïau o fewn yr ardal Amcan 1, ac SMEau yn benodol, yn wynebu anawsterau arbennig ac felly mae'r cyfyngiadau ar y cymorth yn uwch na'r cyfyngiadau ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn rhai Amcan 1 a chwmnïau mawr.

Beth am arian cyfatebol?

Mae arian cyfatebol yn cyfeirio at swm y cyllido nad yw'n dod o'r GE sydd ei angen ar brosiect. Ymysg y ffynonellau mae cyrff cyhoeddus (y Cynulliad Cenedlaethol, awdurdodau lleol, Asiantaethau megis Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru) y sectorau preifat a gwirfoddol. Mae nifer o fecanweithiau ariannu cyhoeddus all gynnig ffynonellau ar gyfer arian cyfatebol gan ddibynnu ar natur y prosiect. Dylai ymgeiswyr fod yn ofalus, fodd bynnag, rhag ofn iddynt wneud cyfrif dwbl. Ni ellir defnyddio cyllid o gynllun sydd eisoes wedi derbyn hwb gan arian o Ewrop fel arian cyfatebol ar gyfer prosiect arall sy'n ceisio am arian Amcan 1.

Beth yw'r broses ymgeisio?

Mae Amcan 1 yn cael ei weithredu drwy gyfrwng partneriaethau a strategaethau. Bydd gan bob partneriaeth strategaeth gytûn ar gyfer ei maes cyfrifoldeb.

Bydd rhaid cyflwyno prosiectau trwy gyfrwng partneriaeth. Ystyrir prosiectau sy'n cynnwys llai na phedair ardal awdurdod lleol yn brosiectau lleol a dylid eu cyflwyno drwy bartneriaeth leol (fel arfer yr un lle bydd y prosiect wedi ei leoli, ond ar ôl ymgynghori ag ardaloedd eraill sy'n rhan o'r prosiect). Dylid cyflwyno prosiectau mwy trwy gyfrwng y bartneriaeth ranbarthol sy'n gyfrifol am faes perthnasol y Rhaglen.

Bydd y partneriaethau lleol a rhanbarthol yn ystyried prosiectau sy'n dod o fewn naill ai eu hardal ddaearyddol neu eu maes thematig. Byddant yn ystyried sut y mae bob prosiect yn cyd-fynd â'u strategaeth ac os yw'n dyblygu prosiectau eraill sydd eisoes wedi eu cymeradwyo neu sydd dan

ystyriaeth. Bydd barn y partneriaethau lleol a rhanbarthol yn cael eu hanfon i WEFO.

WEFO sy'n gyfrifol am asesu cymhwyster y prosiectau, ystyried sut y maent yn cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol a strategaethau eraill (gan ymgynghori â phartneriaethau eraill yn ôl y galw), asesu gwerth am arian ac yna cyflwyno ei farn, ynghyd â barn y partneriaethau lleol a rhanbarthol, i'r partneriaethau strategol.

Bydd y partneriaethau strategol yn ystyried pob prosiect o fewn eu maes gorchwyl ac yn gwneud argymhellion i WEFO mewn perthynas â chymeradwyo. WEFO sydd wedyn yn gyfrifol am anfon llythyrau cymeradwyo, monitro a gwerthuso prosiectau a thalu hawliadau.

Pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd?

Y nod yw na ddylai'r broses gymeradwyo gymryd mwy na 3 mis ar ôl derbyn cais wedi ei gwblhau a'i gefnogi'n llawn. Ond bydd yr union gyfnod yn dibynnu ar ansawdd y cais a maint a chymhlethdod y prosiect.

Alla'i gael help?

GALLWCH. Mae'r prif gyrff ac Uned y Sector Preifat yn WEFO a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gyd ar gael i ddarparu help a chyfarwyddyd manwl ynghylch datblygu prosiect a gwneud cais.

Sut alla'i sicrhau nad ydw i'n gwastraffu amser ac egni yn llunio prosiect na fydd yn cael ei gymeradwyo yn y pen draw?

Gan fod y broses yn un gystadleuol, nid yw'n bosibl dweud yn bendant y bydd unrhyw brosiect yn derbyn cymeradwyaeth. Serch hynny, po fwyaf o waith ymgynghori a wnewch wrth lunio'r prosiect, po fwyaf trylwyr fydd eich ymchwil i'r farchnad a'r dystiolaeth a gyflwynir gennych i gefnogi eich prosiect, a pho fwyaf fydd y gwerth am arian a gynigir gan eich prosiect, y mwyaf tebygol yw hi y bydd eich cais yn llwyddiannus.

Bydd nifer o bartneriaethau yn gofyn i chi gwblhau ffurflen gais. Mae hyn yn caniatáu iddynt ystyried syniad sylfaenol eich prosiect heb eich bod chi'n gorfod mynd i'r gost na threulio amser yn llunio cais llawn. Byddwch yn derbyn adborth i ddweud a yw'ch prosiect yn werth ei ystyried. Byddwch hefyd yn derbyn adborth gan bartneriaethau wrth iddynt ystyried eich cais llawn.

Gall WEFO hefyd ddarparu canllawiau ynghylch cymhwyster (yn cynnwys materion gofal priodol), gwerth am arian ac a yw'r prosiect yn cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol.

Pryd alla'i gychwyn fy mhrosiect?

Y rheol gyffredinol yw na ddylai prosiectau gychwyn nes eu bod wedi derbyn cynnig swyddogol ysgrifenedig o grant Ewropeaidd. Y rheswm am hyn yw na

ellir rhoi grant lle nad oes angen gwirioneddol amdano, ac unwaith y mae prosiect wedi cychwyn, mae'n anodd profi fod y grant yn hanfodol.

Sut ydw i'n gwneud cais?

Ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau, mae'r ceisiadau yn cael eu hanfon bob chwarter am daliadau ôl-ddyledus. Ar gyfer y sectorau gwirfoddol a di-elw, fodd bynnag, mae ceisiadau'n cael eu gwneud bob chwarter ymlaen llaw. Gall y taliadau gymryd hyd at 6 wythnos. Dylech gynnwys oediad o'r fath yn llif arian eich prosiect. (D.S. wrth lunio eich costiadau a'ch llif arian ar gyfer y prosiect, dylech ofyn i'ch cynghorydd treth sut i ddelio â TAW ar gyfer y prosiect. Mae TAW na ellir ei hawlio'n ôl yn wariant derbyniol, ond dim ond os yw wedi ei gynnwys yng nghais y prosiect.)

Mae'n bwysig iawn fod eich llif arian ar gyfer y prosiect yn realistig. Mae'r CE wedi gosod amodau llym iawn ar hawlio'r grant. Os nad yw prosiectau yn hawlio grant yn unol â'r llif arian y cytunwyd arno yn y llythyr cais, mae perygl y bydd y cyllid yn cael ei golli.

Bydd disgwyl i chi ddarparu tystysgrif archwilio i gefnogi cais y pedwerydd chwarter, ac yn flynyddol wedi hynny am gyfnod y prosiect. Rhaid i'r cais terfynol hefyd fod â chefnogaeth tystysgrif archwilio. (Mae manylion y cymwysterau sydd eu hangen ar archwilwyr wedi eu cynnwys yn y llythyr ffurfiol i gymeradwyo'r prosiect).

Sut fydd y prosiect yn cael ei fonitro a'i werthuso?

Bydd gofyn i chi fod â systemau priodol yn eu lle i fonitro cynnydd eich prosiect o ran gwariant ac allbwn. Bydd galw arnoch i gyflwyno adroddiadau chwarterol waeth a ydych chi'n hawlio grant ai peidio. Dylai'r adroddiadau hyn ddangos cynnydd yn erbyn y targedau cytûn ar gyfer y prosiect a ddiffiniwyd yn y llythyr cymeradwyo. Yn ystod cyfnod y prosiect, pe gwelid fod angen diwygio unrhyw darged/au bydd angen i chi dderbyn cymeradwyaeth WEFO.

Mae gan WEFO, a rhai cyrff eraill, yr hawl i archwilio'r prosiect ac i ofyn am wybodaeth ar unrhyw adeg.

Beth yw'r trefniadau hawlio'n ôl?

Mae tri prif amgylchiad lle gellir hawlio'r grant yn ôl:

Bydd disgwyl i chi gwrdd â'r targedau a nodir yn eich llythyr cymeradwyo. Gall methu cwrdd â'r targedau arwain at beth o'r grant, neu'r cyfan, yn cael ei hawlio'n ôl gennych.

Os yw'ch prosiect yn rhagweld elw, efallai y byddwch yn agored i dalu arian yn ôl ar unrhyw elw yr ystyrir ei fod yn ormodol (byddai'r amodau wedi eu gosod yn eich llythyr cymeradwyo, ond mae'n debygol y byddai'n seiliedig ar gyfran cyllid y prosiect a ddarperir gan arian strwythurol).

Os bu eich grant yn gymorth i brynu asedau sefydlog, gallai gwerthu'r asedau hyn naill ai yn ystod cyfnod y prosiect neu am bum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect, olygu eich bod yn agored i dalu arian yn ôl.

Mae hyn i gyd yn swnio'n gymhleth iawn. Oes yna ffordd haws i gael grant Amcan 1?

Efallai y bydd rhai sefydliadau, yn enwedig sefydliadau gwirfoddol bychan a chwmnïau preifat, yn ei chael hi'n haws i gael mynediad at arian Amcan 1 trwy gyfrwng cynllun grant sydd wedi derbyn cefnogaeth Amcan 1. Mae WEFO yn cadw manylion o'r rhain i gyd, a gall roi gwybod i bobl pa gynlluniau grant sydd ar gael.

Sut alla'i gael dylanwad ar yr hyn sy'n cael ei ddarparu?

Wrth gyfranogi mewn partneriaethau a gweithio fel partner gyda'r sector cyhoeddus i gyflawni prosiectau.

GWYBODAETH YCHWANEGOL AR GYFER Y SECTOR PREIFAT

Sut alla'i gael mynediad at yr arian?

Gall y sector preifat elwa ar gyllid Amcan 1 mewn dwy ffordd:

y cyntaf (a'r un sy'n debygol o fod mwyaf priodol ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau) yw **yn anuniongyrchol** trwy fod yn fuddiolwyr yn sgîl prosiectau/cynlluniau Amcan 1 sy'n cael eu darparu gan gyfryngwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Yr ail ffordd yw **yn uniongyrchol,** trwy dderbyn cymorth Amcan 1 tuag at brosiect fydd yn gymorth i gyflawni amcanion a thargedau'r Rhaglen.

Sut fydda' i'n gwybod os mai cymorth uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n briodol?

Ar y cyfan, nid yw cyllid uniongyrchol ar gael ar gyfer buddiolwyr unigol (cwmnïau). Os ydych chi'n chwilio am gymorth i gynyddu eich busnes, mae'n debyg mai'r trywydd mwyaf priodol ar gyfer cefnogaeth yw trwy gyfrwng sefydliad cyfryngol (h.y. cymorth anuniongyrchol). Dylai'r cynlluniau sy'n cael eu darparu gan gyfryngwyr gyda chyllid Amcan 1 gael eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich busnes, byddant yn fwy hyblyg a bydd y broses ymgeisio yn llai cymhleth na phe byddech yn gwneud cais uniongyrchol am arian Amcan 1.

Serch hynny, os gallwch ddangos fod gan eich prosiect fanteision y tu hwnt i'ch cwmni chi yn unig ac y bydd yn helpu i gwrdd â'r targedau a osodwyd ar gyfer y Rhaglen, yna gallwch wneud cais am gymorth uniongyrchol.

Pa fath o gymorth anuniongyrchol sydd ar gael?

Gan mai helpu busnesau i dyfu yw nod y Rhaglen, yn enwedig SMEau, bydd gan y rhan fwyaf o brosiectau sy'n cael eu cymeradwyo beth perthnasedd i fusnesau. Mae rhai ohonynt yn benodol i'w sector neu i'w hardal, ond bydd nifer ar gael ar draws y rhanbarth ac ar draws sectorau. Mae rhai sectorau (e.e. adwerthu, gwasanaethau iechyd neu dai) nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth grant uniongyrchol (oherwydd dadleoliad neu orgynhwysedd), ond bydd y rhan fwyaf o fusnesau yn gallu derbyn rhyw fath o gymorth (e.e. cymorth gyda chynllunio ariannol neu hyfforddiant).

Dyma enghreifftiau o brosiectau sydd eisoes wedi eu cymeradwyo:

Grantiau awdurdodau lleol – mae nifer o awdurdodau lleol wedi derbyn cyllid i gefnogi cynlluniau grant sydd wedi eu hanelu at anghenion cwmnïau lleol
Grantiau twristiaeth drwy Fwrdd Croeso Cymru – i helpu busnesau twristiaeth i wella eu cyfleusterau, ymestyn y tymor ayb
Hyfforddiant – trwy gyfrwng colegau neu ddarparwyr yn y sector preifat
Mentrau penodol i sectorau – trwy gyfrwng rhwydweithiau megis y Fforwm Opto-electroneg neu'r Fforwm Modurol
GwellBusnesCymru fydd yn darparu ystod eang o gymorth TGCh ar gyfer SMEau ar draws y rhanbarth.
Y rhaglen Bwyd-amaeth fydd yn darparu cymorth ar gyfer ffermwyr, yn enwedig y rheiny sy'n dymuno arall gyfeirio.

Ymhlith prosiectau eraill sy'n cael eu hystyried gan WEFO a/neu'r Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd mae:
Cyllid Cymru – fyddai'n darparu cyllid ar gyfer cwmnïau sy'n tyfu
(yn cynnwys darparu benthyciadau a soddgyfran gyda chymorth ar gyfer rheolaeth drwy fentora)
Gellir gweld manylion prosiectau sydd wedi eu cymeradwyo ar wefan WEFO (wefo.wales.gov.uk). (Yn gynnar yn y Rhaglen, y ffordd hawsaf i weld beth sydd wedi ei gymeradwyo yw ymweld â'r adran dan y pennawd *Diweddaraf* ar y wefan a darllen y datganiadau i'r wasg).

Cofiwch fod y prosiectau hyn yn ategu neu'n ychwanegu at gymorth sydd eisoes ar gael ac y byddant yn cael eu darparu ochr yn ochr â chefnogaeth prif ffrwd drwy'r rhwydwaith Cyswllt Busnes (sy'n darparu porth ar gyfer busnesau sy'n chwilio am gymorth). **Cyswllt Busnes felly ddylai fod y man cychwyn ar gyfer busnesau sy'n chwilio am gymorth i gynyddu eu busnesau. Bydd Cyswllt Busnes yn gallu eich helpu i gael mynediad at raglenni sy'n derbyn cyllid Ewropeaidd ac at y dewis llawn o gefnogaeth arall sydd ar gael ar gyfer busnesau ar hyn y bryd. Mae gan Gyswllt Busnes wefan (businessconnect.org.uk) neu gallwch ei ffonio ar 08457 969798.**

Os wyf am wneud cais uniongyrchol am gyllid, beth fydd yn rhaid i mi ei arddangos?

Yn ogystal â'r meini prawf a nodwyd yn gynharach yn y llyfryn hwn, bydd angen i chi arddangos y canlynol:

- bod gan eich prosiect fanteision ehangach nag ar gyfer eich cwmni neu'ch sefydliad chi yn unig;
- bod y cyfraddau adennill a'r lefelau elw yn rhesymol (gan gymryd y sector a'r risg i ystyriaeth);
- bod y cwmni/y sefydliad yn hyfyw a'i fod yn dderbynnydd priodol ar gyfer cyllid cyhoeddus (gofal priodol);

Oes angen partner yn y sector cyhoeddus arna'i?

Does dim ateb syml i'r cwestiwn hwn. Bydd hi'n haws dangos y *manteision ehangach* ddaw yn sgîl bod â chefnogaeth (boed hynny yn gefnogaeth ariannol neu'n gefnogaeth o fath arall) gan sefydliad o'r sector cyhoeddus.

Mae'r angen am gyllid o'r sector cyhoeddus yn dibynnu ar ba ran o'r Rhaglen rydych yn ceisio cael mynediad ati.

Ar gyfer pob rhan o'r Rhaglen (pob *Mesur*) mae cytundeb wedi ei wneud gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch dosraniad y cyfraniad rhwng Cyllid Strwythurol, Llywodraeth y DU a'r sector preifat.

Er nad yw pob prosiect wedi ei gyfyngu gan y dosraniad hwn, wrth asesu ceisiadau rhaid i'r WEFO gadw mewn cof yr angen i sicrhau bod y dosraniad yn gywir ar gyfer y Mesur fel cyfanwaith. Bydd y Comisiwn yn mynd ati i sicrhau, yn benodol, bod cyfran y sector cyhoeddus o'r cyllid ar gyfer y Rhaglen yn cael ei dalu.

O ganlyniad i hyn felly, bydd angen i brosiectau sicrhau cyllid o'r sector cyhoeddus ar gyfer y rhan fwyaf o Fesurau.

Alla'i gael help?

Gallwch. Mae Uned y Sector Preifat yn WEFO ar gael i drafod unrhyw syniadau o'ch eiddo.

GWYBODAETH YCHWANEGOL AR GYFER Y SECTOR GWIRFODDOL

Mynediad uniongyrchol at y Rhaglen Amcan 1

Gall sefydliadau gwirfoddol, cyn belled â bod ganddynt gyfansoddiad cyfreithlon, wneud cais uniongyrchol a derbyn arian Amcan 1 i gynnal prosiectau sy'n cyfrannu mewn rhyw ffordd tuag at yr hyn y mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ceisio ei gyflawni drwy Amcan 1.

Y cam cyntaf pwysig y mae angen i sefydliadau gwirfoddol ei gymryd os ydynt yn ystyried gwneud cais am arian Amcan 1 yw sefydlu beth y mae eu prosiect yn ei wneud a lle mae hyn yn cydweddu â rhaglen Amcan 1 yn gyffredinol.

Mae enghreifftiau o weithgaredd sydd yn rhan o raglenni fyddai o ddiddordeb i sefydliadau gwirfoddol yn cynnwys:

- Prosiectau sy'n hybu cyflogadwyaeth megis hyfforddi a chynghori, yn enwedig, ond nid yn unig, ar gyfer grwpiau targed sydd wedi eu "heithrio yn gymdeithasol";
- Gweithgaredd wedi ei anelu at adfywio'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd;
- Cefnogaeth ar gyfer creu a datblygu busnes economi cymdeithasol sy'n ailgylchu ei elw er lles y gymuned;
- Prosiectau datblygu gwledig;
- Cynyddu cynhwysedd sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol i gymryd rhan yn y rhaglenni a chyfrannu at ddatblygiad economaidd ehangach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Pwy yw'r cysylltiadau?

Mae pwy i gysylltu â nhw a lle y dylech wneud cais yn amrywio gan ddibynnu ar ganolbwynt gweithgaredd y prosiect. Mae'r Rhaglen yn cael ei chyflawni gan bartneriaethau neu sefydliadau, yn cynnwys y sector gwirfoddol. Gall gweithgaredd ddigwydd o fewn unrhyw ardal ddaearyddol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, o ddarparu ar gyfer y gymuned leiaf i gynlluniau sy'n cwmpasu'r rhanbarth Amcan 1 gyfan. Os yw prosiect yn gweithredu o fewn rhan o ardal awdurdod lleol, neu o fewn yr ardal gyfan, yna dylid cyfeirio ymholiadau a cheisiadau trwy gyfrwng y partneriaethau lleol. Argymhellir cysylltu â chyrff ymbarél megis Cynghorau Gwirfoddol y Siroedd a'r Awdurdodau Lleol. Os yw prosiect yn gweithredu ar draws mwy na phedwar awdurdod lleol, yna fe'i ystyrir yn brosiect 'rhanbarthol'. Cysylltwch naill ai â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Ewrop neu WEFO fel y gallant eich cyfeirio at y cyswllt rhanbarthol mwyaf addas.

Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni wedi argymell y dylid sefydlu Uned Gefnogi'r Sector Gwirfoddol er mwyn cefnogi'r sector ym mhob agwedd ar arian Ewropeaidd. Bydd yr uned wedi ei lleol yn y CGGC, a bydd yn sicrhau bod sefydliadau yn derbyn cyngor cyson o ansawdd da ynghylch y rhaglen. Bydd yn gallu cyfeirio sefydliadau i'r pwynt mynediad priodol, rhoi cyngor ymarferol ar wneud ceisiadau a rhoi cyngor yn ystod cyfnod y prosiect.

Mynediad anuniongyrchol

Yn ogystal â gwneud ceisiadau uniongyrchol, gall sefydliadau gwirfoddol elwa mewn ffyrdd eraill ar y rhaglen Amcan 1. Mae sefydliadau ymbarél a darparwyr gwasanaeth sy'n gweithio yn lleol ac yn rhanbarthol yn sefydlu cynlluniau lle gall sefydliadau gwirfoddol elwa drwy'r defnydd o arian Amcan 1. Gall hyn gynnwys cyrsiau hyfforddi a seminarau, adeiladu cynhwysedd a gwaith datblygu, cyngor ac adnoddau ar fathau penodol o sefydliadau ayb.

Mae nifer o gynlluniau grantiau bach a chyllid allweddol wedi eu sefydlu yn lleol er mwyn i sefydliadau gael mynediad at arian Amcan 1 am resymau penodol ac mewn ffyrdd gwahanol. Bydd partneriaethau lleol yn gwybod am y cynlluniau cyllido a grantiau sy'n gweithredu'n lleol.

Mae cynllun cenedlaethol o'r enw Cronfa Risg Gymdeithasol yn gynllun grantiau bach sy'n cael ei weinyddu gan CGGC gyda'r nod o gefnogi dulliau gweithredu arloesol o hybu cynhwysedd cymdeithasol ac adfywio economaidd mewn cymunedau lleol ledled Cymru.

Mae CGGC wedi tynnu pecyn o gronfeydd ynghyd o'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan raglenni Amcan 1 ac Amcan 3 a chan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd y cynllun yn cynnig y canlynol i grwpiau bychan cymunedol a gwirfoddol:

- Mynediad hawdd a chyflym at gronfeydd Ewropeaidd.
- Cymorth a chyfarwyddyd ymarferol trwy gydol y broses ymgeisio
- Grantiau 100% o hyd at £10,000
- Dim ffiniau amser penodol ar gyfer gwneud cais
- Penderfyniad asesu o fewn 30 niwrnod o wneud cais

Mae gan CGGC dîm o gynghorwyr ar gyllido Ewropeaidd wedi eu lleoli ar draws Cymru ym Mae Caerdydd, Bae Colwyn a'r Trallwng. Byddant yn cynnig y gefnogaeth, y cyngor a'r cyfarwyddyd sydd eu hangen ar grwpiau cymunedol a gwirfoddol fel y gallant ddatblygu syniadau eu prosiectau'n llawn neu gwblhau eu ffurflenni cais.

Am wybodaeth bellach am y Gronfa Risg Gymdeithasol, cysylltwch â'r:
Tîm Cronfa Risg Gymdeithasol
CGGC
Tŷ Baltic
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FH

Ffôn: 029 2043 1700
Ffacs: 029 2043 1701
Minicom: 029 2043 1702
E-bost: rlovell@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

Diffiniadau

Mae'r **Cronfeydd Strwythurol** yn darparu cymorth grant i brosiectau sy'n annog ac yn hwyluso adfywio economaidd mewn ardaloedd lle mae dirywiad y diwydiannau traddodiadol wedi achosi problemau economaidd a chymdeithasol difrifol.

Mae pedair Cronfa:
Nod **Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (ERDF)** yw lleihau anghyfartaledd rhwng rhanbarthau a chynorthwyol rhanbarthau difreintiedig, yn enwedig ardaloedd dirywiedig sy'n wynebu problemau ailstrwythuro a dirywiad diwydiannol ac ardaloedd gwledig.

Nod **Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)** yw gwella cyfleoedd cyflogaeth o fewn yr Undeb Ewropeaidd trwy ddarparu cefnogaeth ariannol tuag at gostau rhedeg cynlluniau hyfforddi galwedigaethol, prosiectau cyfarwyddo a chynghori, mesurau creu swyddi a chamau eraill i wella cyflogadwyaeth a sgiliau pobl ddi-waith a phobl mewn gwaith. Mae hefyd yn cynnig cefnogaeth ar gyfer ymchwil a gwella cynhwysedd sefydliadau i helpu eu cymunedau targed yn well.

Cronfa Cyfarwyddyd a Gwarant Amaethyddol Ewrop (EAGGF) sy'n cyllido sefydliad cyffredin y marchnadoedd amaethyddol, prosesu cynnyrch amaethyddol a strwythur daliadau amaethyddol.

Yr Offeryn Cyllid ar gyfer Cyfarwyddyd Pysgodfeydd (FIFG) sy'n cyllido mesurau ar gyfer addasu strwythurau pysgodfeydd a dyfryddiaeth a phrosesu a marchnata eu cynnyrch.

Mae gan y Cronfeydd Strwythurol dri Amcan blaenoriaethol, pedair Menter Gymunedol a'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Amcan 1: Dyma'r Amcan y mae'r rhan fwyaf o bobl wedi clywed amdano. Ei nod yw hybu datblygiad ac addasiad strwythurol **rhanbarthau sydd â'u datblygiad economaidd yn llusgo y tu ôl i ranbarthau eraill** – fel arfer y rhanbarthau hynny sydd â'u GDP y pen yn llai neu'n agos at 75% o gyfartaledd y Gymuned.

Nod **Amcan 2** yw trawsnewid ardaloedd sydd wedi cael yr ergyd galetaf gan **ddirywiad diwydiannol**, lle nad yw diwydiannau traddodiadol megis glo a dur, tecstilau ac adeiladu llongau yn gallu cystadlu'n llwyddiannus, gan achosi caledi cymdeithasol ac economaidd enfawr a dadleoli ar gyfer y gweithlu lleol. Ardaloedd lle mae cyfartaledd cyfradd diweithdra a chanran cyflogaeth ddiwydiannol yn uwch na chyfartaledd y Gymuned.

Amcan 3: Nod Amcan 2 yw **brwydro yn erbyn diweithdra hirdymor,** gan gynorthwyo Pobl ifanc a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu heithrio o'r gweithlu; mae'n hybu cyfleoedd cyfartal ac yn gwella safle menywod yn y

gweithlu; mae'n hybu cymhwysedd a mentergarwch yn y gweithlu; ac yn gwella hyfforddiant, addysg a chynghori ar gyfer dysgu gydol oes.

Mentrau Cymunedol: LEADER +, URBAN 2, INTERREG 3, ac EQUAL yn mynd i'r afael â materion o ddiddordeb i'r Undeb Ewropeaidd cyfan, yn enwedig cysylltiadau trawsgenedlaethol a chyfnewid profiad.

Y Cynllun Datblygu Gwledig: sy'n darparu mecanwaith ar gyfer cefnogi datblygiad cynaliadwy cefn gwlad Cymru. Mae'n ategu diwygiadau yn y sector amaethyddol drwy feithrin ymagwedd integredig at ddatblygu gwledig a thrwy gydnabod y cyfraniad ehangach y mae amaeth yn ei wneud i gymunedau gwledig. Mae'r Cynllun yn seiliedig ar 10 Mesur posibl, yn cynnwys amgylchedd amaeth, cefnogaeth ar gyfer ardaloedd llai breintiedig, addasu a datblygu ehangach o fewn cymunedau gwledig a phrosesu a marchnata cynnyrch amaethyddol. Mae cyfanswm dyraniad cyllid Ewropeaidd a ddarperir gan y Cynllun yng Nghymru oddeutu £12.6 miliwn y flwyddyn.

Dyma ddogfennau y bydd angen i chi gyfeirio atynt o bosibl:

Dogfen Raglennu Sengl - y ddogfen hon yw'r cytundeb rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar sut y bydd yr arian a ddarperir gan y GE yn cael ei ddefnyddio i ddatrys y problemau economaidd sydd wedi eu nodi. Gellid ei chyffelybu i gynllun corfforaethol. Mae'n ddogfen hir dros ben (375 tudalen). Mae ar gael ar wefan WEFO neu drwy ffonio llinell gyswllt WEFO ar 01443 471100.

Dogfen Ategol – cytunir ar y ddogfen hon gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMC) – y pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithredu'r rhaglen – ac mae'n gosod allan holl fanylion y gweithredoedd cymwys a'r allbynnau a'r targedau. Gellid ei chyffelybu i gynllun busnes. Mae hon hefyd yn ddogfen hir (192 tudalen). Mae ar gael ar wefan WEFO neu drwy ffonio llinell gyswllt WEFO ar 01443 471100.

AELODAU'R PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI

Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn gyfrifol am oruchwylio effeithlonrwydd ac ansawdd gweithrediad y Rhaglen.

Cadeirydd

- Christine Chapman AC

Sector Cyhoeddus

- Phil Williams AC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Aelod eiledol: Michael German AC
- Y Cynghorydd Noel Crowley, Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru
  Aelod eiledol: Cyng Maurice Hughes
- Y Cynghorydd Ron Hughes, Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru
  Aelod eiledol: Cyng M Parker
- Tracey Burke, Awdurdod Datblygu Cymru

Aelod eiledol: Graham Moore
- Robin Williams, Addysg Uwch
  Aelod eiledol: Adrian Webb
- Grenville Jackson, Addysg a Dysgu Cymru
  Aelod eiledol: Roger Hampton

Sector Preifat/Cymdeithasol

- Anne Beynon, Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)
  Aelod eiledol: John Everett
- Stephen Cole, Ffederasiwn Busnesau Bach
  Aelod eiledol: Christine Sommer
- Adrian Barsby, Siambr Cymru
  Aelod eiledol: Mike Theodoulou
- Jim Hancock, Cyngres Undebau Llafur
  Aelod eiledol: Christine Casseldine
- Simon Jones, Cyngres Undebau Llafur
  Aelod eiledol: Felicity Williams
- Bill Goldsworthy, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru*
  Aelod eiledol: Rhian Nowell-Philips

Sector Gwirfoddol/Cymunedol

- Graham Benfield, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
  Aelod eiledol: Sue Spurrier
- Margaret Jervis, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
  Aelod eiledol: Wayne David
- Anne Meikle, Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru
  Aelod eiledol: Tim Stowe
- Sian Swann, Partneriaeth Cydraddoldeb
  Aelod eiledol: Jacqui Christie
- Sue Price, Economi Cymdeithasol
  Aelod eiledol: Alan Williams
- Lynne Thomas, LEADER
  Aelod eiledol: Elwyn Vaughan

Cynghorwyr Statudol Arbenigol

- Paul Loveluck, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Roger Thomas, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Jonathan Jones, Bwrdd Croeso Cymru
- Kevin Fitzpatrick, Comisiwn Hawliau Anabledd
- Kate Bennett, Comisiwn Cyfle Cyfartal
- Mushaq Ally, Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
- John Walter Jones, Bwrdd yr Iaith Gymraeg

*Bydd aelodaeth Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru yn cael ei gylchdroi bob 18 mis.

CYSYLLTIADAU
Partneriaethau Rhanbarthol

Partneriaeth	Cyswllt	Nodiadau
Bwyd-amaeth	**Uned Cyllid Strwythurol** Awdurdod Datblygu Cymru Canolfan Q E D, Prif Rodfa, Stâd Treforest, Pontypridd CF37 5YR Ffôn: 01443 845858 Ffacs: 01443 845860 E-bost: structural.funds@wda.co.uk Gwefan:www.wda.co.uk	Gwefan bwyd-amaeth: www.foodwales.com
Oes Gwybodaeth		Gwefan oes gwybodaeth: www.wis.org.uk
Mentergarwch		
Arloesedd /Y&D		
Cefnogaeth Busnes		
Isadeiledd		Partneriaeth newydd yn cael ei ffurfio
Twristiaeth	**Nigel Adams** Bwrdd Croeso Cymru Tŷ Brunel, 2 Heol Fitzalan, Caerdydd CF24 OUY Ffôn: 029 2047 5267 Ffacs: 029 2047 5319 E-bost: nigel.adams@tourism.wales.gov.uk	
Adfywio Cymunedau	**Phil Fiander** Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH Ffôn: 029 2043 1700 Ffacs: 029 2043 1701 E-bost: pfiander@wcva.org.uk	
Datblygu Adnoddau Dynol	**Teresa Holdsworth** Uned Partneriaeth Ewropeaidd HRD, ELWa, Tŷ'r Arfon, Heol Bedwas, Bedwas, Caerffili CF83 8WT Ffôn: 01443 663820 Ffacs: 01443 663801 E-bost: HoldwsorthT@elwa.org.uk	
Cyflogaeth	**John Glyn Davies neu Liz Owen**	Mae Partneriaeth

	Swyddfa Cymru y Gwasanaeth Cyflogaeth, Tŷ'r Cwmnïau, Rhodfa'r Goron, Caerdydd CF4 3UW Ffôn 029 2038 1457 Ffacs 029 2038 0432 E-bost: johng.davies@employment.gov.uk neu E-bost: liz.owen@employment.gov.uk	Cyflogaeth bellach yn is-bwyllgor i Bartneriaeth HRD. *Dim ond ymgeiswyr sy'n chwilio am arian cyfatebol gan y gwasanaeth cyflogaeth ddylai gysylltu â'r Bartneriaeth Cyflogaeth.*
Rheolaeth Coedwigaeth, Cefn Gwlad a'r Arfordir	**Paul Finch** Comisiwn Coedwigaeth, Swyddfa Genedlaethol Cymru, Teras Victoria, Aberystwyth SY23 2NQ Ffôn: 01970 625866 paul.finch@forestry.gsi.gov.uk	

PARTNERIAETHAU LLEOL

ARDAL DE DDWYRAIN CYMRU	
Mr David Ware, Swyddog Ewropeaidd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent,** Canolfan Adnoddau Busnes, Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach, Tredegar NP22 3AA Ffôn: 01495 355717 Ffacs: 01495 355735 E-bost: david.ware@blaenau-gwent.gov.uk	Mr Mark Halliwell, Cydlynydd Polisïau Corfforaethol Cyfarwyddiaeth Polisïau Corfforaethol **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr**, Swyddfeydd Dinesig, Stryd Angel, Pen-y-Bont ar Ogwr CF31 1LX Ffôn: 01656 643346 Ffacs: 01656 768098 E-bost: hallim@bridgend.gov.uk
Ms Victoria Phillips, Swyddog Ewropeaidd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili,** Heol Nelson, Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7WF Ffôn: 01443 864416 Ffacs: 01443 864310 E-bost: phillv@caerphilly.gov.uk Gwefan: www.obj1caerphilly.co.uk	Mrs Jill Shuker, Swyddog Ewropeaidd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** Y Ganolfan Ddinesig, Heol y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN Ffôn: 01685 725253 Ffacs: 01685 387740 E-bost: european@merthyr.gov.uk

Mr Graeme May, Swyddog Ewropeaidd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**, The Pavillions, Parc Cambrian, Bro Clydach CF40 2XX Ffôn: 01443 424039 Ffacs: 01443 424031 E-bost: graeme.r.may@rhondda-cynon-taff.gov.uk	Mr Peter Davies, Swyddog Ewropeaidd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen,** Neuadd y Sir, Cwmbran NP44 2WN Ffôn: 01633 648052 Ffacs: 01633 648086 E-bost: peter.davies@torfaen.gov.uk
ARDAL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU	
Catrin Lloyd Jones, Prif Swyddog Ewropeaidd **Cyngor Gwynedd,** Swyddfa'r Sir, Caernarfon LL55 1SH Ffôn: 01286 679343 Ffacs: 01286 679488 E-bost: cljones@gwynedd.gov.uk	Mrs Eirian Jones, Swyddog Ewropeaidd **Cyngor Sir Ynys Môn**, Swyddfa'r Sir, Llangefni Ynys Môn LL77 7TW Ffôn: 01248 752491 Ffacs: 01248 752192 E-bost: ewjpl@ynysmon.gov.uk
Mr Bryn Richards, Swyddog Adfywio Lleol **Cyngor Sir Ceredigion**, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA Ffôn: 01545 572060 Ffacs: 01545 572029 E-bost: ewro@ceredigion.gov.uk	Mr Kevin Edwards, Swyddog Ewropeaidd **Cyngor Sir Ddinbych**, Tremclwyd, Canol y Dre, Rhuthun LL15 1QA Ffôn: 01824 708087, Ffacs: 01824 708088 E-bost: kevin.edwards@denbighshire.gov.uk
Sheila Potter, Prif Swyddog Cyllido Ewropeaidd, **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**, Bodlondeb, Conwy LL32 8DU Ffôn: 01492 576012 E-bost: sheila.potter@conwy.gov.uk	
ARDAL DE ORLLEWIN CYMRU	
Mr Neville Davies, Pennaeth y Ganolfan Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru, Adeilad Dewi, Coleg y Drindod, **Caerfyrddin** SA31 3EP Ffôn: 01267 224859 Ffacs: 01267 234279 E-bost: nevdavies@carmarthenshire.gov.uk	Mrs Jackie Thomas, Swyddog Ewropeaidd **Dinas a Sir Abertawe** 11b Heol y Santes Fair, Abertawe SA1 3LP Ffôn: 01792 545071 Ffacs: 01792 545090 E-bost: jackie.thomas@swansea.gov.uk
George Causley, Prif Swyddog Ewrop **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ Ffôn: 01639 764288 Ffacs: 01639 764400 E-bost: g.causley@neath-porttalbot.gov.uk	Mr Gwyn Evans, Swyddog Ewropeaidd **Cyngor Sir Penfro**, Tŷ Cambria, Hwlffordd SA61 1TP Ffôn: 01437 776174 Ffacs: 01437 776184 E-bost: Gwyn.Evans@pembrokeshire.gov.uk

Centre Pages

Objective One Programme Area 2000-2006 Map (bilingual)

CONTACTS/CYSYLLTIADAU

PRIVATE SECTOR/ SECTOR PREIFAT

- Business Connect / Cyswllt Busnes
  Phone/Ffôn: 08457 96 97 98
  Website/Gwefan: www.businessconnect.org.uk

- WEFO Private Sector Unit / Uned Sector Preifat WEFO
  Phone/Ffôn: 01443 471105
  Website/Gwefan: www.wefo.wales.gov.uk

VOLUNTARY SECTOR/ SECTOR GWIRFODDOL

- WCVA / CGGC
  Phone/Ffôn:029 2043 1700
  Website/Gwefan: www.wcva.org.uk

PUBLIC SECTOR/ SECTOR CYHOEDDUS

- Local Partnerships/ Partneriaethau Lleol (page/tud 28)

- Regional Partnerships/ Partneriaethau Rhanbarthol (page/tud 26)

GENERAL ENQUIRIES/YMHOLIADAU CYFFREDINOL

- WEFO
  Phone/Ffôn: 01443 471100
  Website/Gwefan: www.wefo.wales.gov.uk